OWEN, HUGH (1832 - 1897), cerddor

Enw: Hugh Owen
Dyddiad geni: 1832
Dyddiad marw: 1897
Priod: Mary Owen
Plentyn: Richard Griffith Owen
Plentyn: John Jones Owen
Plentyn: Owain Llewelyn Owain
Rhiant: Mary Owen
Rhiant: Richard Owen
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cerddor
Maes gweithgaredd: Cerddoriaeth; Perfformio
Awdur: Robert David Griffith

Ganwyd 15 Ionawr 1832 ym Motwnnog, Sir Gaernarfon, mab Richard a Mary Owen. Cafodd ei addysg yn ysgol ramadeg Botwnnog. Crydd ydoedd wrth ei alwedigaeth, ac ymsefydlodd yn Nhalysarn, Dyffryn Nantlle, i ddilyn ei alwedigaeth. Wedi priodi aeth i fyw i Pen-yr-yrfa, ac wedi hynny i Brynycoed. Mynychai yr Eglwys, ond oherwydd ei ddawn gerddorol penodwyd ef yn arweinydd canu yng nghapel Methodistiaid Calfinaidd Talsarn, a bu yn y swydd am dros 40 mlynedd. Sefydlodd y ' Talysarn Glee Society,' a fu'n cynnal cyngherddau hyd a lled Gogledd Cymru. Cymerodd ran mewn sefydlu g yl gerddorol Eryri, 1866, a chymerai ei gôr ran ynddi'n flynyddol. Yr oedd yn ddatganwr o fri, a gelwid am ei wasanaeth i feirniadu ac arwain. Cyfansoddodd lawer o donau ac enillodd yn eisteddfod Porthmadog (1871) am gyfansoddi'r gân, ' Deigryn ar Fedd Mam,' a fu'n boblogaidd am gyfnod hir. Bu farw 4 Mehefin 1897 a chladdwyd ym mynwent Salem, Llanllyfni.

Awdur

Robert David Griffith, (1877 - 1958)

Ffynonellau

Y Cerddor, 1872

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733203

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu